Dyddiad llofnodi gan y Swyddog Monitro: 16.02.21
Dyddiad llofnodi gan y Swyddog Adran 151: 16.02.21

| | |
|---|---|
| Pwyllgor: | **Pwyllgor Gweithredol** |
| Dyddiad y cyfarfod: | **Dydd Llun 22 Chwefror 2021** |
| Pwnc yr Adroddiad: | **Ysgol Gynradd Gymraeg: Adroddiad Alldro yr Ymgynghoriad** |
| Deiliad y Portffolio: | **Portffolio Addysg a Dysgu, Cyng Joanne Collins** |
| Cyflwynir yr Adroddiad gan: | **Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg – Lynn Phillips** |

| Tîm Rheoli Cyfarwyddiaeth | Tîm Arweinydd-iaeth Gorfforaethol | Deiliad Portffolio/ Cadeirydd | Pwyllgor Archwilio | Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd | Pwyllgor Craffu | Pwyllgor Gweithredol | Cyngor | Arall (noder) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 04.2.2021 | 11.2.21 | 16.02.21 | | | | 22.2.21 | | |

1. **Diben yr Adroddiad**

1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi trosolwg manwl o'r ymgynghoriad statudol yn gysylltiedig gyda'r cynnig i adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd gyda 210 lle a darpariaeth gofal plant ar yr un safle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o:

- fethodoleg yr ymgynghoriad;
- proses yr ymgynghoriad; a
- chanlyniadau'r ymgynghoriad yn cynnwys y themâu allweddol a ddaw i'r amlwg o'r ymatebion a gafwyd.

1.2 Gofynnir am benderfyniad gan y Pwyllgor Gweithredol yn unol â'r cynnig i symud ymlaen i ganlyniad ymgynghoriad Hysbysiad Statudol.

2. **Cwmpas a Chefndir**

2.1 **Proses a Methodoleg yr Ymgynghoriad**

2.2 Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru – ail rifyn (2018) yn ei gwneud yn ofynnol bod yn **rhaid** cyhoeddi cynigion ar gyfer elfennau dilynol ad-drefnu ysgolion:

1. agor ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgol arbennig);
2. cau ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgol arbennig);
3. gwneud newid a reoleiddir i ysgol a gynhelir; a,
4. newid categori ysgol a gynhelir.

2.3 Bydd y cynnig i greu ysgol gynradd Gymraeg newydd yn golygu agor ysgol a gynhelir. Mae Adran 48 Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol bod yn **rhaid** yn gyntaf gynnal ymgynghoriad cyn y cyhoeddir cynigion trefniadaeth ysgolion dan adrannau 41-45.

2.4 Adolygwyd Strategaeth Ymgynghori a methodoleg gysylltiedig Blaenau Gwent yn 2017, pan wnaed y penderfyniad i symud o gyfarfodydd ffurfiol i sesiynau galw heibio anffurfiol a mwy atyniadol. Y rhesymeg am y dull gweithredu yma oedd ysgogi sgwrs ymgynghorol ar sail un-i-un a grŵp llai er mwyn casglu ystod ehangach o sylwadau drwy ddull mwy atyniadol a chynhwysol.

2.5 Fodd bynnag, oherwydd effaith pandemig COVID-19, bu'n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ynghyd ag awdurdodau eraill ledled Cymru addasu drwy gynnal ymgynghoriad ffurfiol drwy ddulliau rhithiol. I sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ar gyfer ymgysylltu er mwyn i ymgyngoreion ddysgu mwy am a deall y cynnig, cynigiodd Addysg gyfres o gyfarfodydd rhithiol a sesiynau ymgysylltu ar gyfer grwpiau sefydledig ac unigolion ar gais. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ofyniad ffurfiol. Cafodd sesiynau ymgynghori eu cynllunio a'u cydlynu gan Addysg yn defnyddio Microsoft Teams. Ym mhob sesiwn:

- rhoddwyd cyflwyniad, yn rhoi trosolwg o'r cynnig; a
- roedd swyddogion o Addysg, Datblygu Sefydliadol a lle'n bosibl, Pennaeth Ysgol Gymraeg Bro Helyg, yn bresennol i ateb y cwestiynau a godwyd.

2.6 Cafodd yr ymgynghoriad ei ddechrau a'i gynnal drwy ddogfen ymgynghori ffurfiol ac arolwg ar-lein i gyd-fynd â hi (gweler **Atodiad 1** ar gyfer y ddogfen ymgynghori), oedd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r gofynion statudol a nodir o fewn y cod a nodir isod.

2.7 Diben yr ymgynghoriad oedd cael barn a sylwadau ymgyngoreion yng nghyswllt y cynnig, er mwyn llywio proses gwneud penderfyniad a chamau nesaf y Cyngor.

2.8 Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r Awdurdod yn awr gyhoeddi adroddiad ymgynghori (o leiaf 2 wythnos cyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol) sydd yn:

- crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion;
- ymateb i'r rhain ar ffurf esboniad, diwygiad i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi'r rhesymau i gefnogi hynny;
- nodi ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn; ac
- ymateb i ymateb Estyn ar ffurf esboniad, diwygiad i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau i gefnogi hynny.

2.9 Dechreuodd yr ymgynghoriad ffurfiol ddydd Iau 17 Rhagfyr 2020 pan gyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ffurfiol ar wefan y Cyngor. Daeth y broses i ben wedyn ddydd Gwener 29 Ionawr 2021 am 5.00pm. Gofynnwyd i ymgyngoreion roi eu barn, sylwadau ac adborth drwy un neu fwy o'r dulliau dilynol:

- llenwi arolwg ar-lein; a/neu
- drwy e-bost i gyfeiriad e-bost Ysgolion 21ain Ganrif.

2.10 Rhoddwyd rhifau cyswllt hefyd ar gyfer y tîm Trawsnewid Addysg i sicrhau fod ymgyngoreion oedd angen cefnogaeth a/neu gymorth i ymateb yn medru cael mynediad i help a gwybodaeth i'w galluogi i wneud hynny.

2.11 Fe wnaeth y Cyngor dargedu ymgyngoreion yn ôl cyfarwyddyd Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (gweler **Atodiad 2** i gael rhestr o'r ymgyngoreion statudol a gafodd y dogfennau angenrheidiol). Dosbarthwyd llythyrau electronig:

- drwy ysgolion Blaenau Gwent i staff, rhieni a disgyblion;

- i Gyrff Llywodraethu drwy'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg; ac
- ymgyngoreion eraill fel y manylir yn Atodiad 2.

2.12 Derbyniwyd cyfanswm o 198 ymateb ffurfiol yn electronig. Cyflwynwyd yr ymatebion drwy un o'r dilynol: llythyr, e-bost neu arolwg.

2.13 **Trosolwg o Ymgysylltu â'r Cyhoedd**
Oherwydd cyfyngiadau Haen 4 COVID-19, ni fedrid ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd yn y cymunedau yr effeithir arnynt. Fodd bynnag, roedd y ddogfen ymgynghori yn dweud pe byddai unigolion neu grwpiau'n dymuno cysylltu gyda swyddogion i drafod y cynigion y gellid ac y byddid yn trefnu sesiwn rithiol. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am sesiwn benodol gan y cyhoedd a/nac ymgyngoreion allweddol eraill. Nid oedd ychwaith unrhyw alwadau ffôn yn ymwneud â'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, cynlluniodd Addysg 8 cyfarfod gydag ymgyngoreion allweddol (yn cynnwys rhai yr oedd y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt) a fynychwyd gan gyfanswm o 83 o ymgyngoreion (gweler **Atodiad 3** am fwy o wybodaeth). Fel canlyniad i'r cyfarfodydd hyn gofynnwyd cyfres o gwestiynau a gafodd eu hateb gan swyddogion y Cyngor. Mae trosolwg manwl o'r cwestiynau ac ymatebion hyn ar gael yn **Atodiad 4.**

2.14 **Trosolwg o Ymatebion Ysgrifenedig**
Derbyniodd y Cyngor 8 ymateb e-bost, 5 yn Saesneg a 3 yn ddwyieithog. Mae'r cofnod gohebiaeth wedi'i golygu ar gael yn **Atodiad 5.**

2.15 Yn wahanol i ymgynghoriadau blaenorol, ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau Derbyniodd y Cyngor 190 ymateb i'r arolwg, 16 ohonynt yn y Gymraeg, gyda'r gweddill yn Saesneg. Mae dadansoddiad o'r ymatebion cysylltiedig yn **Atodiad 6;** fodd bynnag mae'r data islaw'n rhoi crynodeb o'r canlyniadau h.y. cefnogi'n llawn, cefnogi'n rhannol neu ddim yn cefnogi:

- Cefnogi'r cynnig yn llawn - 177 (93%)
- Cefnogi'r cynnig yn rhannol - 2 (1%)
- Dim yn cefnogi'r cynnig - 11 (6%)

2.16 Rhoddodd 98 (52%) o gyfranogwyr sylwadau ychwanegol yn ymwneud â'r cynnig. Dewisodd 92 (48% o'r cyfranogwyr beidio rhoi sylwadau, ond yn hytrach fynegi eu dewis. O'r 177 ymatebydd a gefnogai'r cynnig, dywedodd:

- 76 eu bod yn breswylwyr lleol
- 35 eu bod yn rhieni
- 43 eu bod yn staff ysgol (addysgu a heb fod yn addysgu)
- 3 eu bod yn llywodraethwyr
- 9 fod ganddynt ddiddordeb

2.17 O'r 11 ymatebydd nad oedd yn cefnogi'r cynnig, dywedodd:

- 6 eu bod yn breswylwyr lleol
- 5 eu bod yn rhieni

2.18 O’r 2 ymatebydd oedd yn cefnogi’r cynnig yn rhannol, dywedodd

- 1 eu bod yn byw’n lleol
- 1 eu bod yn rhiant

2.19 **Ymgysylltu ar y Cyfryngau Cymdeithasol**
Gallodd y tîm Cyfathrebu Corfforaethol sefydlu cysylltiadau ac ymwneud ar y cyfryngau cymdeithasol gyda negeseuon am yr ymgynghoriad.

- Rhoddodd y Cyngor hysbysiadau am yr ymgynghoriad drwy gydol y cyfnod ymgynghori, ar Facebook a Twitter
- Cafodd y negeseuon Facebook yn rhoi manylion y ddogfen a phrosesau ymgynghori gyfanswm o 178 cysylltiad (h.y. rhannu a hoffi) ynghyd â chyfres o sylwadau y gellir eu gweld ar dudalen Facebook y Cyngor
- Roedd tua 50 cysylltiad yn dilyn y negeseuon Twitter (h.y. rhannu a hoffi)
- Cyrhaeddodd y negeseuon ar yr ymgynghoriad drwy Twitter gyfanswm o dros 20,000 o bobl
- Cyrhaeddodd y negeseuon ar yr ymgynghoriad drwy Facebook gyfanswm o dros 7,500 o bobl.

2.20 **Dadansoddiad Thematig**
Defnyddiodd y tîm Trawsnewid Addysg fethodoleg dadansoddiad thematig i asesu barn yr ymgyngoreion. Mae’r dull hwn yn un o’r rhai a ddefnyddir amlaf mewn ymchwil ansoddol er mwyn dynodi patrymau sy’n dod i’r amlwg drwy set data h.y. themâu allweddol tebyg i iaith. Mae’r themâu a’r patrymau a ddaeth i’r amlwg yn bwysig i’r cwestiynau a ofynnwyd, wrth amlygu effaith y cynnig, a fydd yn ei dro yn cefnogi’r Pwyllgor Gweithredol i wneud penderfyniad gwybodus ar sut i symud ymlaen. Mae’r broses yn un ddehongliadol; fodd bynnag, caiff risgiau dehongli eu lliniaru i raddau helaeth drwy gyflwyno’r holl ymatebion a gafwyd (gweler **Atodiadau 5 a 6** am drosolwg llawn o’r ymatebion).

2.21 Rhoddir manylion islaw am y prif themâu sy’n dod i’r amlwg o ddadansoddiad o’r ymatebion ysgrifenedig yn cynnwys negeseuon e-bost ac arolygon, ynghyd ag amlder pob un o’r themâu a nodir uchod (o’r themâu mwyaf cyffredin i’r lleiaf cyffredin):

| Thema | Amlder |
|---|---|
| **Newid a Chyfle Cadarnhaol**<br>Rhoddodd nifer o ymatebwyr fanylion y newidiadau a chyfleoedd cadarnhaol yn gysylltiedig gyda'r cynnig h.y. cyfleoedd swydd, caffael iaith, datblygiadau lleol ac yn y blaen. | 41 |
| **Ychwanegedd a Thwf**<br>Nododd yr ymatebwyr yr angen am opsiynau addysg Gymraeg ychwanegol a chyfleoedd twf cysylltiad ar bob cam addysg, ynghyd â phontio. | 37 |
| **Iaith a Diwylliant**<br>Credai ymatebwyr fod gan y cynnig y potensial i gael dylanwad cadarnhaol a hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn lleol. | 34 |
| **Hygyrchedd**<br>Nododd yr ymatebwyr y byddai datblygiad lleol yn cynyddu mynediad i addysg Gymraeg a chyfleoedd dwyieithog. | 32 |
| **Dewis**<br>Teimlid y byddai'r cynnig yn hyrwyddo mwy o ddewis yn nhermau opsiynau a dewis addysg. | 12 |
| **Effaith**<br>Mynegodd ymatebwyr eu barn am a holi am yr effaith bosibl ar ysgolion presennol a'r ardal leol fel canlyniad i'r cynnig. | 12 |
| **Hyfywedd**<br>Dywedodd nifer fach o ymatebwyr efallai na fyddai'r cynnig yn hyfyw o safbwynt tir a chynaliadwyedd. | 7 |

2.22 Mewn blynyddoedd diweddar, mae ymgynghoriadau ar ad-drefnu ysgolion wedi derbyn cyfran uwch o ymatebion negyddol na chadarnhaol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y derbyniodd yr ymgynghoriad hwn lefel uwch o gefnogaeth nag o her.

2.23 **Ymatebion Plant a Phobl Ifanc**

Cymerodd ysgolion, Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent a'r Urdd ynghyd â thîm Polisi a Phartneriaethau y Cyngor ran yn y broses ymgynghori er mwyn cefnogi'r tîm Trawsnewid Addysg i fesur barn plant a phobl ifanc. Bu'n anodd cydlynu sesiynau penodol oherwydd cyfyngiadau presennol Haen 4 ac argaeledd plant a phobl ifanc i gymryd rhan weithgar.

2.24 Gofynnodd Ysgol Gymraeg Bro Helyg am farn disgyblion ar y cynnig, oedd yn cynnwys y sylwadau dilynol gan ddisgyblion o fewn Blynyddoedd 4, 5 a 6:

- 'Syniad gwych, braf cael ysgol Gymraeg arall yn agos, mae siarad Cymraeg yn dda ar gyfer y dyfodol.'
- 'Da i'r iaith, byddai wedi bod yn nes i fi oherwydd mod i'n byw yn Nhredegar.'

- ‘Mae prinder ysgolion Cymraeg ym Mlaenau Gwent felly byddai’n wych cael un arall.’
- ‘Syniad gwych, ond fe hoffwn i ysgol uwchradd hefyd gan fod Gwynllyw mor bell.’
- ‘Syniad da oherwydd ein bod eisiau mwy o siaradwyr Cymraeg.’
- ‘Da iawn – mae’n dda i bobl fedru siarad Cymraeg.’
- ‘Dylai hyn fod wedi digwydd oesoedd yn ôl!’
- ‘Syniad gwych oherwydd mai dim ond un ysgol Gymraeg sydd ym Mlaenau Gwent.’
- ‘Syniad da iawn fel nad yw plant yn gorfod teithio mor bell ar y bws.’

2.25 **Ymateb Estyn**

Cafwyd ymateb gan Estyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ac mae ymateb llawn yn seiliedig ar y ddogfen ymgynghori yn **Atodiad 5** (ymateb 5). Crynodeb/casgliad Estyn ar y cynnig yw::

Mae’r cynigiwr wedi ymgynghori’n eang, yn cynnwys gyda phlant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, staff ysgol, ystod eang o gyfranogion ac aelodau o’r cyhoedd. Mae Estyn o’r farn y bydd y cynnig presennol yn gwella hygyrchedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion yn yr ardal.

2.26 **Crynodeb o sylwadau yn gwrthwynebu’r cynnig**

- Sylwadau’n dweud y byddai’n well gwario’r arian ar yr ysgolion sydd eisoes wedi sefydlu yn yr ardal nag ar yr ysgol newydd yma
- Sylwadau fod digon o ysgolion yn Nhredegar. Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar nifer eu disgyblion ac felly eu cyllidebau.
- Nid oes fawr iawn o Gymraeg yn yr ardal.
- Mae golygfeydd gwych dros Dredegar o’r tir y bwriedir adeiladu’r ysgol gynradd arno, ond bydd adeilad concrit arall eto yn cymryd y gofod gwyrdd hyfryd hwn. Mae’r tagfeydd traffig ar waelod Heol Beaufort yn ofnadwy yn barod ar adegau ysgol, bydd yr ysgol newydd yma o fewn tafliad carreg o Ysgol Gynradd Glanhywi ac felly caiff y traffig ei ddyblu.
- Gan mai awdurdod lleol bach yw Blaenau Gwent, sylwadau ar fater teuluoedd yn gwneud y daith fer i’r Blaenau i fynychu’r ysgol Gymraeg bresennol.
- Mae llawer o weithfeydd heb eu cofnodi dan y safle a gynigir.
- Nid yw Ysgol Bro Helyg yn llawn. Gallai hyn fynd â niferoedd i ffwrdd o ysgolion eraill ac nid yw’n ymddangos fod galw am yr ysgol. A yw’n ariannol hyfyw cael adeilad ysgol llawn gyda dim ond dau ddosbarth?
- Pryder am yr effeithiau negyddol a gaiff ar yr ysgolion cynradd presennol yn ardal Tredegar. Mae’r ysgolion hyn ymysg darparwyr gorau addysg gynradd yng Nghymru. Mae’r rhan fwyaf yn y categori Gwyrdd ac nid oes dim mewn Mesurau Arbennig.

Mae rhestr lawn o’r cwestiynau a ofynnwyd a’r sylwadau ar gael yn **Atodiad 7.**

3 **Opsiynau ar gyfer Argymhelliad**

3.1 Mae 2 opsiwn yn gysylltiedig gydag adroddiad all-dro yr ymgynghoriad fel sy'n dilyn:

- **Opsiwn 1** – Y Pwyllgor Gweithredol yn ystyried ac yn derbyn yr adroddiad all-dro, dogfennau cysylltiedig a'r llwybr gweithredu, yn cynnwys symud ymlaen at Hysbysiad Statudol
- **Opsiwn 2** – Y Pwyllgor Gweithredol yn rhoi sylwadau ar y gwelliannau y gellir eu gwneud yng nghyswllt y ddogfen gysylltiedig a'r llwybr gweithredu a gynigir, gan ystyried y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a'r amserlen a sefydlwyd.

4. **Tystiolaeth o sut mae'r pwnc hwn yn cefnogi cyflawni'r Cynllun Corfforaethol / Cyfrifoldebau Statudol / Cynllun Llesiant Blaenau Gwent**

4.1 Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018), mae gofyniad statudol ar gynghorau i ymgynghori ar a chyhoeddi cynigion am ad-drefnu ysgolion. Mae Addysg yn flaenoriaeth strategol o fewn y Cynllun Corfforaethol, gyda thwf, datblygiad a chynaliadwyedd addysg Gymraeg yn elfen allweddol yn hynny.

4.2 Mae'r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg yn ganolog wrth sicrhau mynediad i'r Gymraeg a pharhau i'w datblygu yn unol â nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae addysg hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at Gynllun Llesiant Blaenau Gwent gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio tuag at y saith nod llesiant, gyda ''Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un ohonynt. Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a gweithio at y nodau llesiant. Mae gan y broses ar gyfer cynllunio addysg Gymraeg hefyd sail statudol dan Adran 84 Deddf 2013.

5. **Goblygiadau pob opsiwn**

5.1 **Goblygiad ar y gyllideb** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol cyfalaf yn gysylltiedig gyda'r cynnig hwn ar gyfer y Cyngor, gan fod y £6 miliwn a ddyfarnwyd yn gyllid 100% heb unrhyw ofyniad arian cyfatebol. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd ddyfarnu £200,000 fel cyllid 100% o'r Grant Cyfalaf Gofal Plant.

Yn y tymor canol i'r hirdymor, bydd goblygiadau cyllideb refeniw yn gysylltiedig gyda'r cynnig, gan y bydd angen sefydlu'r Gyllideb Ysgol Unigol ym mlwyddyn ariannol 2023/2024 a bydd y cyllid gofynnol yn tyfu'n flynyddol wrth i'r ysgol dyfu i'w chapasiti.

Mae'r tybiaethau a ddefnyddir yn y modelu yn cynnwys tybiaeth na fyddai unrhyw dwf drwyddi draw yn y boblogaeth disgyblion fel canlyniad i'r cynnig, y byddai angen i'r Gyllideb Ysgol Unigol gynyddu gan £265,000 yn 2023/2024 gyda chynnydd pellach o £189,000 yn 2024/2025 er mwyn

cyllido'r ysgol newydd. Byddai gweddill y cyllid seiliedig ar ddisgyblion sydd ei angen yn dod o fewn y Gyllideb Ysgol Unigol bresennol, wrth i ddisgyblion ddewis y gosodiad newydd yn hytrach nag ysgolion eraill (gan ostwng cyllid seiliedig ar ddisgyblion mewn ysgolion presennol).

Yn seiliedig ar y modelu uchod, bydd pwysau cost i'r Cyngor o £265,000 yn 2023/2024 a £189,000 yn 2024/2025, y bydd angen ei ystyried fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol.

Mae'n debyg y bydd effaith ariannol gadarnhaol ar Gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol a byddai angen cynnal asesiad er mwyn meintioli'r gostyngiad cost tebygol pe gweithredid y cynnig. Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol:

- **Gwariant cyfredol** y flwyddyn ar addysg Gymraeg tua:
    - Cynradd - £150,000 (4 Bws ac 1 Tacsi)
    - Uwchradd - £220,000 (6 Bws ac 1 Tacsi)
    - **2 bws i Fro Helyg o ardal Ebwy Fawr a Tredegar** - £67,000 y flwyddyn
- **Gostyngiad posibl mewn camau mewn costau cludiant** h.y. disgyblion Tredegar/Ebwy Fawr i Fro Helyg – cost gyfartalog fesul bws y flwyddyn £33,000

5.2 **Risg** Mae risg na fydd y Cyngor yn cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Strategol Addysg Gymraeg. Ymhellach, mae'r potensial i golli'r £6 miliwn a ddyrannwyd i Flaenau Gwent yn unol â datblygu ysgol gynradd Gymraeg newydd gyda 210 lle, sy'n adeiladu ar y cysyniad/model egin, pe na fyddai'r cynnig a chysyniad yn mynd rhagddynt. Yn ychwanegol, byddai'r Cyngor yn colli'r £200,000 a ddyrannwyd yn unol â'r Grant Cyfalaf Gofal Plant.

5.3 **Cyfreithiol** Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol unigol yn gysylltiedig â'r cynnig hwn.

5.4 **Adnoddau Dynol** Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol ar staffio neu'r gweithlu yn gysylltiedig gyda'r broses ymgynghori. Pe byddai'r cynnig yn mynd rhagddo, fodd bynnag, caiff yr agweddau llywodraethiant ac arweinyddiaeth eu datblygu mewn partneriaeth gyda Datblygu Sefydliadol, Cyllid a'r ysgol yr effeithir yn uniongyrchol arni.

## 6 Tystiolaeth i Gefnogi

6.1 **Gwybodaeth a Data Perfformiad** Gweler y ddogfen ymgynghori **(Atodiad 1)** ar gyfer y data perfformiad data yn gysylltiedig â'r cynnig.

6.2 **Canlyniad disgwyliedig i'r cyhoedd** Gall y cyhoedd ddisgwyl proses ymgynghori deg a chyfartal sy'n cydymffurfio'n llawn gyda Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018).

6.3 **Ymgyfraniad** Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ffocws allweddol yn holl gynigion trefniadaeth ysgolion. Cynhelir ymgynghoriad ar y cynnig yn unol â

Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018), a gaiff wedyn ei ddefnyddio fel sail i'r prosesau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

6.4 **Meddwl am yr Hirdymor** Mae'r ymgynghoriad yn rhoi manylion cynnig sydd â'r nod o sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg ychwanegol yn unol â datblygiad a chynaliadwyedd hirdymor y system addysg ym Mlaenau Gwent.

6.5 **Ffocws ataliol** Mae'r cynnig yn anelu trin y materion cynaliadwyedd yn gysylltiedig â thwf a datblygiad addysg Gymraeg yn y dyfodol.

6.6 **Cydweithio/gweithio partneriaeth** Cafodd yr ymgynghoriad ynghyd â datblygiad y cynllun ei ddatblygu ar y cyd gyda'r Fforymau Addysg Gymraeg lleol a rhanbarthol, Cynllunio, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyllid, Ysgolion, awdurdodau eraill ac yn y blaen.

6.7 **Integreiddio** Mae'r cynnig yn anelu i sicrhau integreiddiad rhwng addysg Gymraeg a darpariaeth gofal plant presennol, gan gefnogi twf a chynaliadwyedd.

6.8 **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn unol â'r ymgynghoriad, a benderfynodd nad oes unrhyw effaith negyddol ar y nodweddion gwarchodedig. Mae'r cynnig yn hyrwyddo cyfle cyfartal o fewn Blaenau Gwent ar gyfer teuluoedd a dysgwyr Cymraeg, gan gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

7. **Trefniadau Monitro** Os yw'r ymgynghoriad yn mynd rhagddo, bydd monitro helaeth yn unol â'r prosesau ymgynghori, ymatebion a chanlyniadau, a fyddai'n cael eu hateb, eu dadansoddi a mynd drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor. Yn ychwanego, byddai'r prosiect yn cael ei sefydlu a'i reoli yn unol â Fframwaith Rheoli Prosiect Corfforaethol Blaenau Gwent a methodoleg PRINCE 2.

**Dogfennau Cefndir/Dolenni Electronig.**

| |
|---|
| **Atodiad 1** Adroddiad yr ymgynghoriad |
| **Atodiad 2** Rhestr yr ymgyngoreion |
| **Atodiad 3** Rhestr o gyfranogwyr a fynychodd y cyfarfod Microsoft Teams |
| **Atodiad 4** Yr holl gwestiynau a ofynnwyd yn y digwyddiadau ymgynghori hyn |
| **Atodiad 5** Gohebiaeth wedi ei golygu |
| **Atodiad 6** Dadansoddiad o'r arolwg ar-lein |
| **Atodiad 7** Sylwadau heb fod yn cefnogi'r cynnig ac ymatebion |